## FFENS CWYMPEDIG – PLATFFORM Y RHEILFFORDD

Gadewch imi achub ar y cyfle i rannu'r diweddaraf gyda chi ynghylch cyflwr y ffens sydd wedi'i difrodi ar blatfform y rheilffordd. Mae 3 rhan o'r ffens wedi disgyn a hynny yn sgil difrod storm a gwynt.
Aeth mabwysiadwyr gorsaf Dolwyddelan ati i ysgrifennu at Network Rail a Trafnidiaeth Cymru i ofyn iddyn nhw am ei atgyweirio. Derbyniwyd yr ymateb "Rydym yn ymwybodol o'r pryder ac yn ymchwilio i'w atgyweirio. Fodd bynnag, does gennym ni ddim dyddiad hyd yma o ran pryd fyddwn ni'n ymgymryd â'r gwaith."
Bydd mabwysiadwyr yr orsaf, ar y cyd â 'Dolwyddelan yn ei Blodau' yn parhau i fynd i'r afael â'r mater.

Myfanwy Chapman, Cadeirydd.

## Y CLWB DYDD LLUN

**Mae'r Clwb dydd Llun** yn cwrdd gan amlaf ar bedwerydd ddydd Llun y mis drwy gydol y flwyddyn. Mae'r cyfarfodydd yn y Pafiliwn ac yn cychwyn am 2 o'r gloch fel arfer. Rydym eisoes wedi trefnu siaradwyr gwadd ar gyfer eleni ac rydym yn edrych ymlaen at ein trip diwrnod blynyddol yn yr haf. Y llynedd bu inni fwynhau diwrnod ar Ynys Môn gan gynnwys taith mewn cwch ar hyd y Fenai ac o amgylch Ynys Seiriol.

Mae croeso mawr i unrhyw un ymuno â ni i wneud Ffrindiau a sgwrsio dros baned.



## PROSIECT HWB CYMUNEDOL BETHEL

Yn dilyn cwblhau cam un a dau'r prosiect hwb cymunedol, ynghyd â chwblhau'r ymgynghoriad cymunedol, fe ffurfiwyd grŵp newydd sy'n bwrw golwg ar ddichonoldeb mynd rhagddi gyda'r prosiect.

Os hoffech chi ddysgu mwy am y prosiect, cysylltwch gyda …

Richard Griffin,
Arwel, 4 Bron Elan, Dolwyddelan LL250TJ
Ffôn: 01690 750072
Symudol: 07736 059925
Ebost: richard_griffin@btinternet.com